

Llawer i'w gollu:

Y cynnydd £20 yr wythnos yn y Credyd Cynhwysol

Awst 2021



Cynnwys

Cliciwch i neidio i dudalennau penodol.

1. Cyflwyniad.....	3
2. Crynodeb o ganfyddiadau allweddol.....	4
3. Crynodeb o argymhellion.....	5
4. Canfyddiadau yn fanwl	6
4.1 Dull gweithredu a methodoleg	6
4.2 'Beth mae £20 ychwanegol yr wythnos wedi'i olygu i chi?'	8
4.3 'Beth fyddai'n ei olygu i chi pe byddech yn colli'r £20 yr wythnos?'	10
5. Hawlwyr heb fod yn gwybod am gynlluniau i dorri £20 yr wythnos o fis Medi 2021 .	13
6. Casgliad ac argymhellion	14
Atodiad A: Tystiolaeth arall ac ymgyrchoedd.....	16



1. Cyflwyniad

Mae'r Credyd Cynhwysol yn daliad sy'n helpu gyda chostau byw ar gyfer pobl ar incwm isel, sydd allan o waith neu na allant weithio.

Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2021 bu cynnydd enfawr yn y nifer oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol oherwydd pandemig Covid-19. Dywedodd cymdeithasau tai yng Nghymru y bu cynnydd o 44% yn y nifer oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn golygu y cynhaliwyd prawf straen cyflym ar y Credyd Cynhwysol.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried un o'r ffactorau allweddol a helpodd i sicrhau y gallai'r Credyd Cynhwysol fod yn llwyddiannus yn ei nod o helpu pobl i ymdopi 'n ariannol: ychwanegu £20 yr wythnos.

Cynyddwyd y lwfans safonol yn y Credid Cynhwysol gan £20 yr wythnos (£86.67 y mis) ym mis Ebrill 2020 ar ben y cynnydd blynyddol a fwriadwyd. Cynnydd dro dro oedd hyn, a gafodd ei roi ar waith mewn ymateb i'r pandemig Covid-19 ac a oedd ar gael i bawb oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol o'r newydd neu yn ei hawlio'n barod.

Cafodd y taliad chwyddo ei ymestyn am 6 mis pellach ym mis Mawrth 2021, ond y bwriad yw dod ag ef i ben mewn camau o fis Medi 2021. Mae'n werth nodi y bwriedir dod â'r cynllun ffyrlo i ben hefyd ddiwedd mis Medi 2021.



2. Crynodeb canfyddiadau allweddol

"Mae'r arian ychwanegol wedi ein galluogi i beidio poeni o ble bydd ein pryd bwyd nesaf yn dod." Tenant

Dywedodd tenantiaid cymdeithasau tai yng Nghymru wrthym y bu'r cynnydd o £20 yr wythnos mewn Credyd Cynhwysol yn hanfodol wrth eu helpu i ymdopi mewn cyfnod ariannol anodd. Dywedodd tenantiaid a gollodd eu swyddi oherwydd pandemig Covid-19 wrthym fod y cynnydd yma wedi eu cynorthwyo rhag dioddef caledi a mynd i ddyled tra'u bod yn edrych am swyddi newydd neu gynyddu eu horiau. Fodd bynnag, mae llawer yn dal i fod mewn trafferthion ariannol oherwydd effeithiau pandemig Covid-19 – a gwaethygydd hyn gan gostau ychwanegol newydd i gefnogi gweithio o gartref.

Dywedodd tenantiaid oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol cyn pandemig Covid-19 ei fod o'r diwedd yn ddigon i'w cefnogi'n ariannol i fedru fforddio hanfodion sylfaenol tebyg i fwyd, dillad ar gyfer eu plant a gwresogi, tra'u bod yn edrych am waith neu gynyddu eu horiau. Roedd hyn oherwydd y £20 ychwanegol yr wythnos a deimlent oedd yn ddoeth fel cynnydd i'r Credyd Cynhwysol.

Mae'n destun pryder na wyddai cyfran uchel o'r tenantiaid y gwnaethom siarad â nhw am y cynlluniau a adroddwyd i dorri £20 yr wythnos o'u pecyn Credyd Cynhwysol yn hydref 2021.



3. Crynodeb o argymhellion

3.1 Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gadw'r taliad chwyddo o £20 yr wythnos fel rhan barhaol o'r Credyd Cynhwysol ar gyfer pawb sy'n hawlio ar hyn o bryd a a fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol.

Yn ei ddatganiad ar 20 Mawrth 2020 disgrifiodd y Canghellor y taliad chwyddo fel ffordd o gryfhau'r rhwyd ddiogelwch. Credwn fod yr angen am rhwyd ddiogelwch gryf yn parhau, ac na ddylai unrhyw un sy'n mynd i anhawster ariannol ar unrhyw adeg ddisgwyl dim byd llai.

Bu'r Credyd Cynhwysol dan straen dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd cynnydd cyflym yn y nifer oedd yn ei hawlio. Bu'r ychwanegiad o £20 yr wythnos yn allweddol i'w lwyddiant wrth helpu pobl i ymdopi'n ariannol.

Oherwydd hyn, dylid cadw'r £20 yr wythnos er mwyn sicrhau fod y Credyd Cynhwysol yn cyflawni y nodau a fwriadwyd iddo. Bydd hyn yn golygu fod y Credyd Cynhwysol yn addas i'r diben fel budd-dal sy'n helpu pobl i ganfod a chadw gwaith, a chefnogi'r rhai sydd ar incwm isel neu na all weithio i fforddio bwyd, gwresogi, dŵr a dillad heb fynd i ddyled.

3.2 Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau roi blaenoriaeth fel mater o frys i gyfathrebu gyda hawlwr a rhoi sicrwydd pontio os caiff y lwfans safonol ei wneud.

Ar ôl cael eu hysbysu y bydd y taliad chwyddo yn dod i ben, mae llawer o denantiaid cymdeithasau tai yng Nghymru yn bryderus y bydd eu Credyd Cynhwysol yn newid dros nos. Maent wedi esbonio y byddai hyn yn sioc ariannol a allai beryglu eu cyfleoedd o fedru edrych am waith neu dalu'r biliau.

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau sicrhau eu bod yn gweithredu i liniaru effaith unrhyw newidiadau a wneir i'r Credyd Cynhwysol, a chyfathrebu mewn modd clir, hygyrch ac amserol gyda'r holl hawlwr. Dylid rhoi sicrwydd pontio i bawb sy'n colli arian – ni ddylai neb wynebu ochr dibyn ariannol. Dylid cynnig cyngor ariannol a chyllidebu i bawb sydd angen help i addasu eu cyllidebau, a dylai cyllid fod ar gael i drydydd partion i roi'r cymorth hwn.

Dylai cyfathrebu roi ystyriaeth i'r rhai sydd heb fynediad i'r rhyngwyd. Dylent hefyd gael eu datblygu mewn partneriaeth gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, er mwyn sicrhau y gallant weithio'n effeithlon i gefnogi tenantiaid sy'n hawlio Credyd Cynhwysol.



4. Canfyddiadau yn fanwl

4.1 Dull gweithredu a methodoleg

4.1.1 Pam nawr?

"Gwyddom eisoes o drafodaethau gyda'n tenantiaid na wyddant sut y byddant yn ymdopi heb y £20 yr wythnos ychwanegol – daeth yn rhan hanfodol o'u cyllideb. Defnyddir yr arian i helpu talu am fwyd a chostau byw cyffredinol, a bydd peidio ei gael yn cael effaith enfawr."

Cymdeithas tai

Mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn rhoi cyngor a chymorth ar faterion ariannol a llesiant i'w tenantiaid.

Mae hyn yn cynnwys:

- » Cymorth i ganfod eu ffordd drwy'r system llesiant ac i gael mynediad i'r Credyd Cynhwysol a'r budd-daliadau eraill y mae gan bobl hawl iddynt
- » Darparu gwasanaethau yn uniongyrchol, a chefnogi pobl i gael mynediad i wasanaethau, sy'n cefnogi cyflogadwyedd, llesiant ac iechyd
- » Cymorth i gael mynediad i grantiau a chymorth argyfwng arall a all fod ar gael, yn cynnwys banciau bwyd

Fel canlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r heriau ariannol sy'n wynebu eu tenantiaid. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae timau llesiant cymdeithasau tai yng Nghymru wedi rhoi sylw i'r ffaith y bu'r cynnydd o £20 yr wythnos yn sylfaenol i allu llawer o'u tenantiaid i drin eu harian, canfod gwaith ac aros allan o ddyled.

Wedi'i ysgogi gan hyn, bu CHC yn gweithio gydag aelodau i dynnu ynghyd farn a phrofiadau tenantiaid er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer dyfodol Credyd Cynhwysol.



4.1.2 Beth wnaethom ni?

Estynnodd cymdeithasau tai yng Nghymru allan i denantiaid sy'n hawlio Credyd Cynhwysol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cysylltu, yn cynnwys arolygon, polion barn, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun a digwyddiadau.

Gofynnwyd dau gwestiwn syml iawn:

- » Beth mae'r £20 ychwanegol yr wythnos wedi ei olygu i chi?
- » Beth fyddai'n ei olygu i chi pe byddai yn cael ei dynnu ymaith?

Fe wnaeth cymdeithasau tai wedyn rannu eu canfyddiadau gyda CHC fel y medrem baratoi'r adroddiad hwn.

Cawsom ymatebion gan 1030 tenant mewn 24 cymdeithas tai (gweler y rhestr islaw). Roedd hyn yn cynnwys cymdeithasau tai o bob rhanbarth yng Nghymru, yn cynnwys ardaloedd gwledig a threfol:

- » Rhwydwaith Llesiant Rhanbarthol Cwm Taf sy'n cynnwys Aelwyd, Cymoedd i Arfordir Cymoedd Merthyr, Linc, Newydd, RHA a Trivallis
- » Hafan
- » Hafod
- » Melin
- » Rhwydwaith Llesiant Rhanbarthol Hywel Dda sy'n cynnwys ateb, Barcud, Bro Myrddin, Coastal, Pobl, Teulu a Wales & West
- » Sir Fynwy
- » Taf
- » Tai Tarian
- » Bron Afon
- » United Welsh
- » Cadwyn
- » Grŵp Cynefin



4.2 'Beth mae'r £20 ychwanegol yr wythnos wedi ei olygu i chi?'

Esboniodd tenantiaid yr heriau sy'n eu hwynebu bob dydd a pham fod y £20 ychwanegol mor bwysig.

4.2.3 Ymdopi'n ariannol gyda llai o incwm oherwydd bod allan o waith neu ar ffyrlo

"Byddai'n ofnadwy colli cymaint â hynny o arian bob mis gan fod incwm yn isel yn barod. Rwy'n ei chael yn anodd dod o hyd i waith ar hyn o bryd."
Tenant

Dyweddodd llawer o bobl wrthym y bu'r £20 ychwanegol yn hanfodol wrth eu helpu i ddod â deupen llinyn ynghyd pan ostyngodd eu hincwm neu iddynt gollu eu swyddi oherwydd pandemig Covid-19. Fe wnaethant hefyd ei gwneud yn glir fod y sefyllfa hon yn parhau a'u bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i waith er eu bod yn gwneud eu gorau.

4.2.1 Gallu edrych am waith neu weithio gartref

"Mae wedi eu cynorthwyo tra'u bod yn edrych am waith, gan iddynt gollu eu swyddi yn ystod y pandemig." Cymdeithas tai

Fe wnaeth y pandemig helpu i ddangos pwysigrwydd Credyd Cynhwysol wrth roi sail gadarn ar gyfer edrych am waith. Disgrifiodd tenantiaid gyfraniad y £20 ychwanegol yr wythnos i sicrhau eu bod yn medru gwneud hyn.

O'r 80 o bobl a ddywedodd eu barn wrth un gymdeithas, dywedodd 54% fod yr £20 yr wythnos ychwanegol wedi eu galluogi i fforddio biliau. Mae hyn wedi helpu pobl i sicrhau safon byw sylfaenol sy'n gydnaws ag edrych am waith, a'u helpu i osgoi mynd i argyfwng a dyled.

Dyweddodd rhai pobl eu bod yn awr yn medru talu am wifi a llofnodi contractau band eang. Esboniodd un gymdeithas tai *"Mae wedi galluogi rhai preswylwyr i dalu am Wi-Fi fel y gallant drin eu hawliadau Credyd Cynhwysol yn ogystal â medrych chwilio am waith o'u cartref a dilyn cyrsiau ar-lein"*



Disgrifiodd tenantiaid y rhwystrau oedd wedi eu hwynebu'n flaenorol wrth edrych am waith, yn arbennig drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd, gan nad oedd eu taliadau Credyd Cynhwysol wedi mynd yn ddigon pell. Er enghraifft, dywedodd un tenant wrthym *"Mae'r £20 ychwanegol i gyd yn mynd ar drydan."*

Disgrifiodd un gymdeithas tai yr heriau neilltuol i bobl syn byw mewn ardaloedd gwledig sy'n edrych am waith. Meddent *"Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi dod â heriau newydd i'n tenantiaid mewn ardaloedd gwledig yn arbennig gyda mynediad i wasanaethau e.e. siopa'n lleol yn cynnwys bwyd, costau trafnidiaeth yng nghefn gwlad a diffyg cyfleoedd - ac mae derbyn y taliad chwyddo wedi gwneud gwahaniaeth enfawr."*

4.2.2 Gallu talu costau byw a byw mewn ffordd iach pan oeddent ar Credyd Cynhwysol

"Dywedodd mwyafrif llethol y bobl y bu'r taliad chwyddo yn werthfawr a defnyddiol tu hwnt, a dywedodd llawer o bobl eu bod wedi rhoi'r arian hwnnw tuag at filiau tŷ, yn arbennig gyfleustodau a bwyd."

Cymdeithas tai

Disgrifiodd tenantiaid, llawer ohonynt â phrofiad blaenorol o hawlio Credyd Cynhwysol, y ffyrdd yr oedd y £20 ychwanegol wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w hiechyd a llesiant.

Mewn llawer o achosion, roedd wedi golygu eu bod wedi medru talu am y pethau hollol hanfodol tebyg i fwyd. Dywedodd un tenant *"Mae'r arian ychwanegol wedi golygu nad wyf wedi gorfod mynd i'r banc bwyd."*



4.3 'Beth fyddai'n ei olygu i chi pa byddech yn colli'r £20 yr wythnos?'

"Gostwng faint o fwyd yr ydym yn ei fwyta a datgysylltu'r rhyngrwyd." Tenant

Dyweddodd llawer o denantiaid er nad efallai yw £20 yn swnio'n sylweddol i rai, y byddai ei golli yn cael effaith enfawr ar eu gallu i aros yn gadarn yn ariannol. Dywedodd rhai y byddai'n golygu y byddent mewn gwirionedd ar eu colled yn gweithio'n rhan-amser, ac y gallai fod yn rhaid iddynt ystyried rhoi'r gorau i'w gwaith.

One group of associations conducted a survey of 93 people, across seven HAs. This survey found that without the extra £20:

- » bod 51% yn teimlo y byddent yn ei chael yn anodd dod â deupen llinyn ynghyd
- » y byddai 33% yn cael trafferth gyda chostau rhedeg tŷ
- » y byddai 26% yn cael trafferth gyda chostau bwyd

Dyweddodd cymdeithas tai arall y teimlai 79% o'r tenantiaid y buont yn siarad â hwy y byddai dileu'r taliad chwyddo o £20 yn eu gadael mewn caledi ariannol.

4.3.1 Cael trafferthion ariannol a dim yn medru fforddio'r pethau sylfaenol

"Fyddwn i ddim yn medru cael cymaint o laeth babi neu gewynnau ar gyfer fy merch." Tenant

Roedd y rhan fwyaf o'r tenantiaid y gwnaethom siarad â nhw yn bryderus am bosibilrwydd gostwng Credyd Cynhwysol gan £20 yr wythnos. Dywedodd nifer eu bod yn ei chael yn anodd ymdopi ar eu hincwm presennol ac felly y byddai unrhyw ostyngiad yn achosi problemau. Teimlai eraill fod cost byw wedi cynyddu yn ystod y pandemig a'u bod yn bryderus sut y byddent yn dod â deupen llinyn ynghyd pe byddai eu Credyd Cynhwysol yn cael ei ostwng.

Mae rhai tenantiaid wedi cymryd contractau ar gyfer band eang a ffôn sy'n eu cefnogi i chwilio am waith, gweithio gartref a thrin eu budd-daliadau. Mae'r contractau hyn yn eu clymu i wneud taliadau dros gyfnodau penodol ac nid yw'n bosibl eu canslo cyn bod cyfnod y contract ar ben. Gallai hyn effeithio ar eu gallu i dalu am filiau eraill angenrheidiol a/neu gallai gael effaith hirdymor ar eu hanes credyd.



Dywedodd tenantiaid mewn un gymdeithas tai y byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid iddynt fod yn oer yn y gaeaf gan na fedrent fforddio gwresogi. Dywedodd eraill y byddent yn cael trafferth fforddio bwyd, yn arbennig fwyd iach, ac y byddai'r newid yn cael goblygiadau negyddol ar eu hiechyd meddwl.

Meddai un tenant: *"Byddai'n golygu na fyddai gennyf gymaint o fwyd neu fwyd da tebyg i ffrwythau i fwydo'r plant."*

Rhododd un gymdeithas tai restr o'r math o broblemau a ddywedodd tenantiaid y byddai'r toriad hwn yn eu budd-dal yn ei olygu, cynnwys:

- » "Na fyddent yn medru cael digon o fwyd, byddai angen banc bwyd
- » Methu fforddio prynu dillad neu hanfodion
- » Methu fforddio cludiant i'r ysgol, ysbyty, siopau (mae siopa'n lleol yn ddrutach)
- » Methu fforddio rhyngrwyd a ffôn symudol
- » Gallent fynd i ddyled gyda chyfleustodau."

4.3.2 Llai o allu i edrych am waith

Siaradodd tenantiaid am eu ffaith y gallent golli eu gysylltiad rhyngrwyd os na fedrent mwyach dalu am gost eu contractau band eang, ac y byddai diffyg arian i dalu biliau trydan hefyd yn eu hatal rhag gwneud cais ar-lein am swyddi.

Dywedodd un tenant *"Y byddwn yn gorfod mynd yn ôl i gael wythnos heb drydan"* heb yr £20 yr wythnos.

4.3.3 Pwysau ariannol yn aml yn cynyddu yn yr hydref a'r gaeaf

Yn ogystal â diwedd y ffyrlo, mae pobl sydd ar incwm isel yn aml yn profi pwysau ychwanegol ar eu cyllidebau ym mis Medi pan fydd plant yn dychwelyd i'r ysgol.

Gwaethygir hyn pan ddaw'r gaeaf pan fydd costau ynni yn cynyddu a phobl yn gorfod treulio mwy o amser dan do.



4.3.4 Gorfod benthycu arian ac yn fwy tebygol o fod angen cymorth drwy banciau bwyd, talebau tanwydd ac yn y blaen

Dyweddodd un tenant wrthym *“Byddwn yn mynd i ddyled gan y byddwn yn gorfod mynd a benthycu'r arian o rywle arall.”*

Dyweddodd eraill eu bod fwy neu lai wedi medru cadw'r ddysgl yn wastad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond y byddai torri £20 yr wythnos o'u Credyd Cynhwysol yn eu gwithio yn ôl i argyfwng ariannol. Dywedodd un wrthym *“Byddai'n fy rhoi mewn caledi ariannol gan fy ngadael yn methu talu fy holl biliau, a dadwneud fy holl waith yn y misoedd ers iddo gael ei gynyddu.”*

“Bu'n rhwyddach yn arbennig heb unrhyw waith gan asiantaeth a does gen i ddim incwm felly mae'r £20 hynny wedi fy arbed rhag benthycu arian o rywle arall” Tenant

4.3.5 Effaith ar y gallu i weithio oriau rhan amser

Mae'r taliad chwyddo wedi golygu fod mwy o bobl yn gymwys am gymorth o'r Credyd Cynhwysol ac wedi galluogi pobl ychydig tu allan i'r trothwy i fedru hawlio'r help ariannol sydd ei fawr angen.

Dyweddodd un tenant y byddai newid i'r ffordd y mae'r Credyd Cynhwysol yn rhyngweithio gyda'u gwaith rhan-amser, gan ddweud *“Fe fyddwn i ar fy ngholled felly efallai y byddai'n rhaid i mi ystyried rhoi'r gorau i fy ngwaith.”*



5. Hawlwyr heb fod yn gwybod am gynlluniau i dorri £20 yr wythnos o fis Medi 2020

"Fe es i ar y Credyd Cynhwysol ym mis Mehefin [2020] felly doeddwn i ddim sylweddoli ei fod wedi bod yn is, fedrwn i ddim ymdopi pe byddai'n cael ei ostwng. Rydw i wedi gorfod aildrefnu fy arian i ymdopi ar ôl dod allan o waith a fedrwn i ddim gostwng eto." Tenant

Dyweddodd un grŵp o gymdeithasau tai wrthym na wyddai 60% o'r 644 tenant a arolygwyd mai dros dro oedd yr £20 yr wythnos. Roedd hon yn thema gyffredin a fynegwyd gan y rhan fwyaf o gymdeithasau tai a roddod ddata.

Crynhodd un gymdeithas tai frys y mater, gan ddweud *"Nid yw tenantiaid yn gwybod mai cynnydd dros dro yw hyn a gyda'r cynnig iddo ddod i ben o fewn tri mis, rydym yn wirioneddol bryderus y bydd yn sioc i'n tenantiaid. Yn sicr, dydyn nhw ddim wedi paratoi ar ei gyfer a cholli swm mor sylweddol o incwm."*

Aethant ymlaen i danlinellu'r angen am gyfathrebu fel mater o frys os yw'r taliad chwyddo i ddod i ben *"Os yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn penderfynu symud ymlaen i ddod ag ef i ben, byddem yn gofyn iddynt ystyried sut a phryd y maent yn dweud yn deg wrth hawlwyd a bod hynny'n caei ei rannu gyda ni fel sector. Dylid dechrau ar y gwaith hwn ar unwaith fel bod tenantiaid yn cael amser i baratoi."*

Mewn termau gweithredol, mae cymdeithasau tai wedi rhybuddio fod llawer o'r cyfrifyddion budd-dal sydd ar gael yn dal i gynnwys yr £20 yr wythnos, a bod hynny'n debygol o achosi dryswch os na chaiff ei unioni'n gyflym.



6. Casgliad ac argymhellion

Yn ôl yr Adran Gwaith a Phensiynau, prif nodau Credyd Cynhwysol i:

- » Annog mwy o bobl i waith ac i wneud i hyd yn oed ychydig o waith dalu a chael ei weld i fod yn talu
- » Sicrhau pontio llyfn i waith drwy gynnig un budd-dal sy'n dileu'r gwahaniad rhwng bod mewn gwaith ac allan o waith
- » Cynnig cymorth symlach, gydag un system yn disodli nifer o systemau, gan felly ostwng costau gweinyddiaeth a'r posibilrwydd am dwyll a chamgymeriad.
- » Mynd i'r afael â thlodi drwy gynyddu defnydd gan y bydd y system yn symlach ac o gynyddu budd cyflogaeth i'r cwsmer.¹

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ciplun cadarn o brofiadau cymdeithasau tai yng Nghymru sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Mae llawer o'r rhai a ymatebodd mewn gwaith ar hyn o bryd ond yn dal ei chael yn anodd dod â deupen llinyn ynghyd ar gyflog isel. Mae'n dangos, bod y llywodraeth, drwy gynnwys £20 yr wythnos yn ychwanegol o fewn y lwfans safonol, wedi sicrhau y gall Credyd Cynhwysol gyflawni ei nodau yn well.

Yn seiliedig ar hyn, mae CHC yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gymryd y camau dilynol.

6.1 Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gadw'r taliad chwyddo o £20 yr wythnos fel nodwedd barhaol o'r Credyd Cynhwysol ar bawb sy'n ei hawlio ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yn ei ddatganiad ar 20 Mawrth 2020, disgrifiodd y Canghellor y taliad chwyddo fel ffordd o gryfhau'r rhwyd ddiogelwch. Credwn fod yr angen am rhwyd ddiogelwch gryf yn parhau, ac na ddylai unrhyw un sy'n mynd i anhawster ariannol ar unrhyw amser ddisgwyl dim byd llai.

Bu'r Credyd Cynhwysol dan bwysau yn y flwyddyn ddiwethaf oherwydd cynnydd sydyn yn nifer yr hawlwr. Bu ychwanegu £20 yr wythnos yn allweddol i'w lwyddiant wrth helpu pobl i ymdopi'n ariannol.

Oherwydd hyn, dylid cadw yr £20 yr wythnos er mwyn sicrhau fod Credyd Cynhwysol yn cyflawni y nodau a fwriadwyd iddo. Bydd hyn yn sicrhau fod y Credyd Cynhwysol yn addas i'r diben fel budd-dal sy'n helpu pobl i ganfod a chadw gwaith ac sy'n cefnogi'r rhai sydd ar incwm isel neu na all weithio i fforddio bwyd, gwresogi, dŵr a dillad heb fynd i ddyled.



6.2 Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau roi blaenoriaeth fel mater o frys i gyfathrebu gyda hawlwyrr ar newidiadau i'r Credyd Cynhwysol.

Ar ôl cael eu hysbysu y daw'r taliad chwyddo i ben, mae llawer o denantiaid cymdeithasau tai yng Nghymru yn bryderus y bydd eu Credyd Cynhwysol yn newid dros nos. Maent wedi esbonio y byddai hyn yn sioc ariannol a allai beryglu eu cyfleoedd o fedru edrych am waith neu dalu biliau.

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau sicrhau eu bod yn gweithredu i liniaru effaith unrhyw newidiadau a wneir i'r Credyd Cynhwysol a'u bod yn rhoi cyfathrebiad clir, hygyrch ac amserol i bawb sy'n hawlio. Dylid rhoi sicrwydd pontio ar gyfer pawb sy'n colli arian – ni ddylai neb wynebu ochr dibyn ariannol. Dylid cynnig cyngor ariannol a chyngor ar drin arian i'r rhai sydd angen help i addasu eu cyllidebau, a dylai cyllid fod ar gael i drydydd partion i roi'r cymorth hwn.

Dylai cyfathrebu hefyd roi ystyriaeth i rai sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd. Dylent hefyd gael eu datblygu mewn partneriaeth gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau y gallant weithio'n effeithlon i gefnogi tenantiaid sy'n hawlio Credyd Cynhwysol.



Atodiad A: Tystiolaeth arall ac ymgyrchoedd

Er mwyn rhoi cyd-destun i'n argymhellion, rydym wedi cynnal adolygiad bwrdd gwaith o dystiolaeth a gaglwyd gan sefydliadau eraill yng nghyswllt gwerth y taliad chwyddo o £20.

Mae hyn yn gwneud yr achos ymhellach dros gadw'r taliad chwyddo, er mwyn sicrhau fod rhwyd ddiogelwch ariannol gref yn ei lle i gefnogi pobl sydd ar incwm isel neu sydd allan o waith i symud i gyflogaeth, cael mwy o gydnerthedd ariannol a maes o law i symud oddi ar y Credyd Cynhwysol.

Yn ei ddatganiad ar 20 Mawrth 2020, disgrifiodd y Canghellor ei hun y taliad chwyddo fel ffordd o gryfhau'r rhwyd ddiogelwch, gan awgrymu y byddai ei dynnu unwaith eto'n gwanhau'r rhwyd honno.² Dengys tystiolaeth fod angen dybryd yn parhau am y rhwyd ddiogelwch, a byddai colli'r taliad chwyddo ar yr un pryd â'r ffyrlo yn dileu dwy haen o'r rhwyd.

Ceidwadwyr yn Senedd y Deyrnas Unedig

Mae chwech aelod o'r Blaid Geidwadol a wasanaethodd fel Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau rhwng 2010 a 2019 (Iain Duncan Smith, Stephen Crabb, Damian Green, Esther McVey, Amber Rudd a David Gauke) wedi ysgrifennu at y Canghellor, yn dadlau y dylid gwneud y taliad chwyddo yn barhaol.³

Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS)

Dywedodd Paul Johnson, cyfarwyddwr yr IFS y byddai'r pwysau'n codi i gadw'r cynnydd o £20 yr wythnos, er y byddai'n costio £6bn y flwyddyn i'r Trysorlys, a dywedodd:

Y mae, gyda'r llaw, yn rhyfeddol tra bod y canghellor wedi teimlo'r angen i ddod â ffyrlo, cymorth ardrethi busnes, gostyngiadau treth stamp a gostyngiadau TAW i ben mewn camau, mae'n dal i gynnig gostyngiad myl dibyn mewn Credyd Cynhwysol fel y bydd incwm rhai o'r teuluoedd tlotaf yn gostwng gan dros £80 rhwng un mis a'r nesaf. Beth bynnag yw'r achos dros dorri haelioni yn y tymor hirach, os ydych yn mynd i wneud hynny mae'n edrych fel na ellir ateb yr achos dros wneud hynny yn raddol yn hytrach nag i gyd ar unwaith.⁴

[2. The Chancellor Rishi Sunak provides an updated statement on coronavirus, Mawrth 2020](#)

[3. UC £20 uplift should be permanent, say Tory ex-welfare ministers - the Independent, Gorffennaf 2021](#)

[4. IFS criticises 'remarkable' move not to phase out universal credit uplift - the Guardian, Mawrth 2021](#)



Ymddiriedolaeth Trussell

Mae Ymddiriedolaeth Trussell wedi annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau fod gan bawb ddigon i fforddio'r hanfodion, gan ddechrau gyda chadw'r cynnydd £20 mewn Crefydd Cynhwysol ac ymestyn hyn i fudd-daliadau gwaddol.⁵

Mewn adroddiad diweddar, maent wedi rhoi tystiolaeth am effaith y taliad chwyddo ar draws y Deyrnas Unedig:

- » Dengys ymchwil fod y taliad chwyddo wedi ei groesawu mewn rhai ar gyllideb dyn, gyda saith mewn deg (72%) o bobl ar y Credyd Cynhwysol ers dechrau 2020 yn dweud fod y cynnydd i'r Credyd Cynhwysol wedi ei gwneud yn rhwyddach i brynu hanfodion.
- » Mae £20 yr wythnos yn 13% o'r hawl cyfartalog i Gredyd Cynhwysol, ac i rai teuluoedd bydd y ffigur mor uchel â 21%.
- » Byddai dileu'r taliad cynnydd yn gostwng incwm miliynau o bobl ar draws y Deyrnas Unedig gan dros £1,000 ar unwaith gan dorri lefel sylfaenol budd-dal diweithdra i'r isaf mewn gwir dermau ers 1990-01.
- » Mae un ym mhob pump (20%) o bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn credu ei bod yn debygol iawn y byddant angen cymorth gan fanc bwyd unwaith y caiff y taliad chwyddo ei dynnu. Mae dros bedwar mewn deg (41%) o bobl sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol yn ofni ei bod yn debygol iawn y byddant yn torri nôl ar fwyd iddynt eu hunain, ac mae un mewn wyth o rieni (13%) yn credu ei bod yn debygol iawn o dorri'n ôl ar fwyd ar gyfer eu plant.⁶

Canolfan Dinasoedd/Centre for Cities

Yn eu hadroddiad diweddar gwnaeth y Ganolfan Dinasoedd argymhelliad i wneud y taliad chwyddo o £20 ar gyfer Credyd Cynhwysol yn barhaol ac adolygu system bresennol nawdd cymdeithasol i fod yn debyg i un gwledydd eraill yn Ewrop. Dywedodd yr adroddiad:

Mae'r cynnydd chwyddo dros dro o £20 mewn Credyd Cynhwysol wedi llacio pwysau ariannol hyd yn oed gryfach ar y rhai ar waelod isaf y dosbarthiad incwm.

Yn amlwg, wrth i'r economi ailagor a chymorth y Llywodraeth yn dod i ben dros gyfnod, mae mwy o'r materion hyn yn debygol o ddod i'r amlwg. Disgwylir y bydd y Cynllun Cadw Swyddi a'r taliad chwyddo o £20 mewn Credyd Cynhwysol yn dod i ben ar ôl yr haf. Gallai hyn ddatgelu storm o broblem dyledion, yn arbennig os nad yw dod â chymorth i ben mewn camau yn cyd-daro gyda'r economi'n tanio ar bob silindr.⁷

[5. State of Hunger: Building the evidence on poverty, destitution, and food insecurity in the UK. Year two main report - Trussell Trust, Mai 2021](#)

[6. Dignity or Destitution?: The case for keeping the Universal Credit lifeline - Trussell Trust, Chwefror 2021](#)

[7. An uneven recovery? How Covid-debt and Covid-saving will shape post-pandemic cities - Centre for Cities, Mehefin 2021](#)



Ymgyrch #KeepTheLifeline

Mae #KeepTheLifeline yn ymgyrch cynghrair o tua 50 o sefydliadau dan arweiniad [JRF](#). Mae'n gofyn i weinidogion llywodraeth y Deyrnas Unedig i beidio torri'r 'rhaff fywyd' hanfodol £20 yr wythnos o'r Credyd Cynhwysol.



I gael mwy o wybodaeth neu i drafod yr adroddiad hwn, cysylltwch â Laura Courtney, Rheolwr Materion Allanol: laura-courtney@chcymru.org.uk